## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Ionawr 2001 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.15 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU – MONITRO PERFFORMIAD 1999-2000 A HANNER CYNTAF 2000-2001

Mae'r adroddiad canlynol yn cynnwys cyflawniadau CCGC yn erbyn targedau allweddol a osodwyd yn Adroddiad Adrannol y Swyddfa Gymreig 1999 (ar gyfer 1999-2000) ac yng nghynllun strategol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol – **www.betterwales.com** (ar gyfer 2000 – 2001).

Fel y gwelir isod, mae dau ffactor allanol wedi cael effaith allweddol ar gyflawniad rhai o dargedau CCGC, yn gyntaf penderfyniad y Cynulliad yn ystod 1999 – 2000 i ddyblu'r gyllideb ar gyfer Tir Gofal ac yn ail, gofynion y Comisiwn Ewropeaidd y dylai'r DU gynyddu'n sylweddol nifer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) maent yn eu cyflwyno dan y Cyfarwyddyd Cynefinoedd. O ganlyniad i'r ddau benderfyniad yma mae'r sefydliad wedi ailflaenoriaethu ei waith ac nid yw wedi cyflawni rhai o'r targedau a fwriadwyd.

### 1999-2000

### Targed 1: paratoi Cynlluniau Rheoli ar gyfer 150 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Ceir targed cyffredinol o sefydlu cynlluniau rheoli ar gyfer pob SoDdGA erbyn y flwyddyn 2004. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi sut y dylid rheoli safle er mwyn sicrhau bod bywyd gwyllt gwerthfawr, sail y dynodiad, yn cael ei ddiogelu neu ei gyfoethogi. Paratowyd 86 cynllun rheoli yn 1999-2000 gan fod nifer o'r staff a oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r cynlluniau hyn wedi eu symud i weithio ar Tir Gofal yn dilyn penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i ddyblu'r gyllideb ar gyfer y cynllun ym mis Tachwedd 1999.

### Targed 2: Diffinio, cynnal a denu cyhoeddusrwydd at 1500km o Hawliau Tramwy (HT)

Mae CCGC yn defnyddio'u grantiau, yn bennaf i awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau cyfleoedd mynediad ar gyfer cerddwyr yng Nghymru. Yn ystod blynyddoedd 1997-1999 mae cymorth grant

CCGC wedi cynorthwyo awdurdodau lleol i wella 3000km o HT. Yn dilyn ymgynghoriad yn 1999-2000 fe ddechreuom newid ein blaenoriaethau i ariannu llwybrau sy'n agos at ganolfannau poblog ac sydd wedi eu cysylltu â chludiant cyhoeddus ac i gynlluniau i hyrwyddo buddiannau iechyd cerdded. Yn 1999-2000 buom yn cynorthwyo i wella 1200km ychwanegol o HT. Mae'r ffigwr is yn adlewyrchu'r ffaith fod gwaith HT yn cynyddu mewn cost wrth i awdurdodau lleol ddechrau mynd i'r afael â gwaith peirianneg drutach (pontydd etc) a'r gwaith o geisio cael pobl o ardaloedd poblog i fynd allan i gefn gwlad, lle'r oedd angen mwy o waith hyrwyddol.

**Targed 3: Sicrhau 600 o gytundebau Tir Gofal**

Gwnaethpwyd cynigion i 472 o ffermwyr gyda'r bwriad o gyflwyno'r gweddill yn y flwyddyn ganlynol. Yn y gyllideb wreiddiol dim ond 300 o ffermydd byddai wedi bod yn bosib i'w cynnwys gan fod gwerth pob cytundeb tipyn fwy na'r hyn a ddisgwyliwyd, yn bennaf, achos bod y rheiny oedd yn ceisio yn cynnig buddiannau amgylcheddol tipyn mwy sylweddol. Dyblwyd y gyllideb yn hwyr yn y flwyddyn ariannol er mwyn ceisio cadw at y ffigwr o 600 o ffermydd. Er gwaethaf symud staff nad oedd yn gweithio ar Tir Gofal at recriwtio ceisiadau ychwanegol nid oedd yn bosib ymweld â phob un o'r 600 a gwneud cynnig cyn diwedd y flwyddyn.

**Targed 4: Cwblhau 48% o'r arolwg ar gynefinoedd rhynglanwol**

Mae'r wybodaeth am ein cynefinoedd morol ac arfordirol yn gyfyngedig o gymharu â'r wybodaeth ar y cynefinoedd tirol cyfatebol. Er mwyn unioni hyn rydym wedi cychwyn ar arolwg manwl o'n cynefinoedd rhynglanwol (y rheiny a ddaw i'r amlwg rhwng llanw) gan anelu at drylwyredd a mapio llawn. Bydd hyn yn darparu'r gwaelodlin ar gyfer monitro iechyd ein harfordiroedd, gydag oddeutu 60% ohonynt o bwysigrwydd Ewropeaidd. Cyflawnwyd y targed o 48%.

**Targed 5: Cynnal o leiaf 20 archwiliad GNG**

Rydym yn anelu at archwilio pob GNG yng Nghymru gan ddilyn rhaglen 3 mlynedd, yn bennaf oll i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli i ddiogelu'r nodweddion a'u dynododd yn safle o'r fath yn y lle cyntaf ac am eu dibenion addysgol ac ymchwil. Cynhaliwyd 23 archwiliad yn ystod 1999-2000. O ystyried y gyllideb ychwanegol mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei nodi ar gyfer CCGC o'r flwyddyn nesaf byddwn yn gallu dechrau rhaglen waith er mwyn sicrhau amodau gwell yn y GNG mae CCGC yn eu rheoli. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwaith gofal a chynnal yn unig mae'r gyllideb wedi'i ganiatáu.

**Targed 6: 13 Awdurdod Lleol sy'n cynnal asesiadau *LANDMAP***

Mae *LANDMAP* yn fethodoleg asesu tirwedd y mae CCGC wedi'i ddatblygu ar y cyd â phartneriaid er mwyn darparu offeryn cynllunio gwrthrychol ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n eu galluogi i asesu effaith datblygiad ar y tirwedd. Mae'n ddyfais wedi'i seilio ar SWDd ac yn medru trosdaenu nodweddion tirwedd amrywiol (e.e. cynefin, data archeolegol). Mae grant CCGC yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu LANDMAP. Yn ystod y flwyddyn enillodd Bro Morgannwg wobr y Sefydliad Tirwedd am ei

waith LANDMAP ac yn dilyn hynny maent wedi derbyn Gwobr Tirwedd Cyngor Ewrop. Cyflawnwyd y targed o 13.

## 2000-2001

**Targed 1: Nodi 40 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA)**

Hanner ffordd trwy’r flwyddyn roedd CCGC wedi nodi/ailnodi 8 SDdGA. Roedd y ffigwr hwn wedi codi i 20 naw mis trwy’r flwyddyn a disgwylir y bydd 20 arall yn cael eu nodi yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Mawrth. Rydym felly yn amcangyfrif y byddwn yn cyflawni’r targed gwreiddiol. Mae’r angen i symud staff at waith nodi ACA wedi cael effaith ar y gwaith hwn, yn enwedig yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.

**Targed 2: Diffinio, cynnal a denu cyhoeddusrwydd at 750km o Hawliau Tramwy (HT)**

Mae’r targed gostyngol yn adlewyrchu i raddau y gostyngiad yn y gyllideb grantiau ar gyfer mynediad eleni ond hefyd y symud parhaus tuag at ariannu llwybrau sydd â mynediad lleol a chynlluniau hyrwyddol ar gyfer y defnydd o HT yn enwedig mewn perthynas â iechyd (e.e. y fenter Cerdded Llwybrau Iechyd a ariannwyd ar y cyd â Sefydliad y Galon Brydeinig). Hanner ffordd trwy’r flwyddyn roeddem wedi trafod rhaglenni gydag awdurdodau lleol i ddarparu 560km o HT wedi’u gwella a chynnal gwaith hyrwyddol ar gyfer cynyddu’r defnydd o’r rhwydwaith.

Er bod staff CCGC yn gysylltiedig â gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno’r hawl statudol ar gyfer mynediad i gefn gwlad yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, nid oedd hyn yn amlwg adeg gosod y targedau ac nid oedd yn bosib cadarnhau’r cynnig tan i’r ddeddfwriaeth ddod i rym ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae swyddogion y Cynulliad yn ymwybodol o’r cynllun gweithredu manwl mae CCGC erbyn hyn yn gweithio tuag ato mewn perthynas â’r ddeddfwriaeth yma.

**Targed 3: Sicrhau 930 o gytundebau Tir Gofal (gan gynnwys 330 o 99-00)**

Hanner ffordd trwy’r flwyddyn roedd 242 o gytundebau blwyddyn gyntaf wedi eu harwyddo ac erbyn diwedd y flwyddyn rydym yn amcangyfrif y bydd y ffigwr hwn wedi codi i 520. Er mwyn sicrhau 520 o gytundebau mae staff CCGC wedi gorfod ymweld â 700 o ffermydd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 54,000ha o ardal tir fferm yn dod o dan y cynllun gyda’r cytundebau blwyddyn gyntaf o gymharu â’r 43,000ha a amcangyfrifwyd. Yn ychwanegol disgwylir y byddwn wedi ymweld a chychwyn trafodaethau â 200 o ffermydd ychwanegol ar gyfer yr ail rownd.

**Targed 4: Cwblhau 61% o’r arolwg ar gynefinoedd rhynglanwol**

Hanner ffordd trwy’r flwyddyn mae 58% o’r arfordir wedi’i arolygu ac wrth i’r tymor gwaith maes ddod i ben ar ddiwedd mis Hydref ni fydd yn bosib ychwanegu at y ffigwr hwn. O ganlyniad i ofynion y Comisiwn Ewropeaidd y dylai’r DU gynyddu’n sylweddol nifer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) maent yn eu cyflwyno dan y Cyfarwyddyd Cynefinoedd symudwyd staff a fu’n gysylltiedig â’r gwaith hwn i nodi’r safleoedd morol. O ganlyniad, rydym wedi colli amser arolygu ac ni fyddwn yn cyflawni 61% eleni.

**Targed 5: Cynnal o leiaf 20 archwiliad GNG**

Hanner ffordd trwy’r flwyddyn roedd 8 wedi’u cwblhau. Rydym yn amcangyfrif y byddwn unwaith eto yn cwblhau 23 erbyn diwedd y flwyddyn.

**Targed 6: 15 Awdurdod Lleol sy’n cynnal asesiadau LANDMAP**

Hanner ffordd trwy’r flwyddyn roedd 14 awdurdod lleol wedi ymuno â’r cynllun. Bydd gwaith ar LANDMAP Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dechrau yn ystod y chwarter olaf ac felly bydd y targed wedi’i chyflawni. Yr awdurdodau sy’n weddill i ymuno â’r cynllun yw Powys, Ceredigion, Abertawe, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Y Fflint, Castell-nedd Port Talbot, Conwy a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro.

9 Ionawr 2001